# Adroddiad Arolygu

**Caban y Faenol Cyf**

**Ysgol y Faenol**
**Penrhosgarnedd**
**Bangor**
**LL57 2NN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

30/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddidâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:* *psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Caban y Faenol Cyf

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Caban y Faenol Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 56 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 27 Tachwedd 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn mynegi eu barn yn hyderus. Maent yn penderfynu sut i dreulio eu hamser ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac â'i gilydd.  Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt, ac maent yn canolbwyntio'n dda ar dasgau.

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn siarad â nhw mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau chwarae ysgogol i'r plant yn ofalus, sy'n eu helpu i ffynnu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn ddiogel ac yn groesawgar. Mae'r teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant ddysgu a meithrin eu sgiliau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod digon o gyfleoedd i'r plant archwilio deunyddiau naturiol a deunyddiau wedi'u hailgylchu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol. Maent yn rhannu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth â'r staff, gan eu helpu i ddilyn polisïau a gweithdrefnau yn effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i'r plant a'u teuluoedd.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn gwneud penderfyniadau hyderus o ran sut i dreulio eu hamser. Maent yn symud yn rhydd o amgylch y gweithgareddau ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r plant hŷn yn cyfrannu syniadau am y gweithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt yn hyderus, drwy eu hysgrifennu ar nodiadau 'post-it' a'u rhoi ar y bwrdd syniadau. Caiff y syniadau hyn wedyn eu cynnwys gan y staff wrth gynllunio gweithgareddau. Mae'r plant yn hyderus wrth ofyn i'r staff am help pan fydd ei angen arnynt ac wrth fynegi eu dymuniadau, gan wybod y bydd y staff yn eu parchu. Er enghraifft, wrth chwarae yn yr awyr agored, roedd y plant iau yn hyderus wrth ofyn i'r staff am help i nôl eitemau o'r ardal chwarae dan do i'w defnyddio yn y gegin fwd.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel gan eu bod yn cael gofal gan aelodau o staff y maent wedi meithrin cydberthnasau cynnes â nhw. Maent yn teimlo'n gyfforddus yn gofyn i'r staff roi tawelwch meddwl neu gysur iddynt pan fydd angen.  Er enghraifft, drwy fynd at y staff i gael tawelwch meddwl ar ôl cweryla â ffrind. Mae'r plant yn awyddus i gynnwys y staff yn eu chwarae. Er enghraifft, roedd y plant yn awyddus i eistedd gyda'r staff wrth gwblhau gweithgaredd crefft. Roeddent yn sgwrsio'n hapus â'i gilydd wrth baentio'r lluniau a'r patrymau ar eu llusernau a gwnaethant ofyn i'r staff am help i ddewis eitemau ac i ludo'r rhuban ar eu llusernau ar ôl iddynt orffen. Mae'r plant yn gwneud ffrindiau ac yn sgwrsio â'i gilydd yn ystod amser cinio ac yn ystod amser chwarae, gan wenu a chwerthin yn aml wrth

iddynt wneud hynny. Mae'r plant hŷn yn ystyriol o'r plant iau ac yn gyfeillgar tuag atynt, ac maent yn awyddus i rannu eu diddordebau â nhw heb anogaeth gan y staff.

Mae'r plant yn gwrando'n dda ac yn hapus i helpu gyda thasgau a dilyn cyfarwyddiadau. Er enghraifft, wrth iddynt olchi eu dwylo, wrth wisgo eu cotiau ac wrth iddynt dacluso ar ddiwedd gweithgaredd. Mae'r plant yn chwarae'n dda gyda'i gilydd. Maent yn rhannu teganau, yn aros eu tro ac yn cydweithio i gwblhau tasgau'n dda. Er enghraifft, wrth iddynt ddefnyddio eu dychmyg i chwarae yn yr ardal awyr agored, gwnaethant aros eu tro i osod eu potiau ym mhopty'r gegin fwd a gwnaethant gydweithio i arllwys digon o ddŵr i wneud i wrthrychau arnofio ar hyd y pibellau dŵr.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth drwy gwblhau tasgau drostynt eu hunain. Er enghraifft, mae'r plant iau yn cael digon o amser i fwydo eu hunain ac i agor pecynnau bwyd yn ystod amser cinio, gyda'r staff wrth law i'w cefnogi a'u hannog. Mae gan bob plentyn yr hyder i ddewis pa weithgareddau y mae am gymryd rhan ynddynt yn annibynnol a gall y plant symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored yn ystod sesiwn y prynhawn fel y mynnant.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn deall gweithdrefnau'r lleoliad i sicrhau y caiff y plant eu cadw'n ddiogel ac yn iach, ac maent yn eu dilyn yn effeithiol. Mae mwy na'r nifer gofynnol o staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu dogfennu'n dda a chaiff y cofnodion eu llofnodi gan y rhieni, sy'n dangos eu bod wedi cael eu hysbysu. Mae'r staff yn hyderus o ran y gweithdrefnau cywir i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon am blentyn ac maent wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant. Mae'r staff hefyd yn sicrhau y caiff ymarferion tân eu cynnal o leiaf unwaith bob tymor er mwyn sicrhau bod y plant a'r staff yn gwybod sut i adael y safle yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r staff yn annog y plant i fwyta'n iach ac i yfed digon; maent yn sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar eu poteli dŵr drwy gydol y dydd ac yn annog y rhieni i baratoi pecynnau cinio iach i'w plant neu i gofrestru i gael y cinio iach a ddarperir gan yr ysgol gyfagos. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen. Mae'r staff hefyd yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i dreulio amser yn yr awyr agored, gan sicrhau eu bod yn datblygu eu sgiliau corfforol. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol wrth drin bwyd a chaiff y byrddau eu glanhau rhwng gweithgareddau. Fodd bynnag, nid yw'r staff bob amser yn dilyn yr arferion gorau mewn perthynas â newid cewynnau.

Mae'r staff wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant; maent yn siarad â nhw mewn ffordd garedig a thawel ac yn rhoi cysur a thawelwch meddwl iddynt pan fydd eu hangen arnynt. Maent yn delio ag unrhyw fân anghytundebau neu ymddygiad amhriodol yn gadarnhaol. Er enghraifft, drwy dynnu sylw'r plant neu eu hatgoffa sut i rannu a siarad yn garedig pan fydd unrhyw fân anghytundebau rhyngddynt. Mae'r staff yn defnyddio canmoliaeth yn aml drwy gydol y dydd i annog y plant i ryngweithio ac ymddwyn yn gadarnhaol. Roedd y staff yn dangos esiampl o foesau da drwy gydol y sesiwn ac yn rhoi llawer o ganmoliaeth i'r plant pan oeddent yn gwneud yr un peth.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau llawn hwyl y maent yn gwybod y bydd y plant yn eu mwynhau, gan gynnwys cymysgedd da o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn gyfarwydd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Mae'r staff yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion gofal, personol a meddygol unigol y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad, gan eu helpu i gynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion unigol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'r ysgol gyfagos a'r cylch lleol, sy'n golygu y gall gwybodaeth gael ei rhannu'n effeithiol rhwng y lleoliadau, gan sicrhau bod y plant yn trosglwyddo'n hwylus rhyngddynt.

| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn blaenoriaethu diogelwch y plant ac yn sicrhau bod y staff yn dilyn gweithdrefnau i gadw'r plant yn ddiogel. Er enghraifft, mae'r staff yn gofyn i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd ac maent yn sicrhau bod yr adeilad, y safle a'r ardaloedd awyr agored yn ddiogel. Mae hyn yn sicrhau na all unigolion heb awdurdod ddod i mewn i'r safle. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr ar waith, sy'n amlinellu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant a'r camau a gymerwyd i reoli neu ddileu'r peryglon hyn. Caiff y dogfennau hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff unrhyw beryglon posibl eu monitro a'u rheoli'n effeithiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn cynnwys digon o le, yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac yn groesawgar.  Mae'r ardal chwarae awyr agored yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i'r plant archwilio a chwarae er mwyn datblygu eu dychymyg, gan gynnwys cegin fwd, teganau chwarae dŵr, ardal adeiladu sy'n cynnwys creigiau, estyll pren, tywod a cherrig mân a dewis o deganau reidio. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn annog y plant i fod yn ddysgwyr chwilfrydig drwy ddefnyddio eitemau go iawn yn yr ardaloedd chwarae. Er enghraifft, roedd y cornel chwarae rôl yn cynnwys cyfarpar cegin go iawn, llestri a ffonau tŷ wedi'u hailgylchu. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i'r plant ddatblygu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas ac iddynt ddatblygu eu dychymyg. Caiff teganau ac adnoddau eu storio ar lefel isel, mewn blychau sydd wedi'u labelu'n glir, fel y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd ac yn annibynnol. Mae byrddau a chadeiriau o wahanol faint ar gael i gyd-fynd â gwahanol oedrannau'r plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae cyfleusterau addas yn y toiledau, gyda sinciau a thoiledau lefel isel er mwyn hybu annibyniaeth y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau sydd mewn cyflwr da ac sy'n addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant.  Maent yn lân ac mewn cyflwr da, a chedwir cofnodion manwl o ran pryd y cânt eu glanhau a'u harchwilio. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn sicrhau bod digon o gyfleoedd i'r plant archwilio deunyddiau naturiol, deunyddiau cynaliadwy a deunyddiau wedi'u hailgylchu. Er enghraifft, roedd llawer o'r teganau wedi'u gwneud o bren ac roedd gwrthrychau go iawn ac

amrywiaeth o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu ar gael i'r plant eu harchwilio. Maent hefyd yn darparu digonedd o adnoddau amlddiwylliannol a Chymreig er mwyn i'r plant ddysgu mwy am y byd y maent yn byw ynddo.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent yn rhannu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth â nhw ac yn sicrhau y caiff polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad eu dilyn yn effeithiol. Mae'r polisïau yn gynhwysfawr, gan roi amlinelliad clir o'r gweithdrefnau i'w dilyn a chânt eu hadolygu bob blwyddyn. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn cynnwys gwybodaeth fanwl ac yn cynnig disgrifiad cywir o'r gwasanaeth a gynigir, sy'n golygu y gall rhieni wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a yw'r lleoliad yn diwallu eu hanghenion nhw ac anghenion eu plentyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn awyddus i sicrhau ei fod yn parhau i ddatblygu a gwella. Maent yn gofyn yn rheolaidd am adborth ar lafar gan y rhieni yn ogystal â thrwy anfon holiaduron adborth at y rhieni a'r staff. Caiff adborth ei gasglu hefyd gan y plant drwy siarad â nhw ac arsylwi arnynt yn ddyddiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi llunio adroddiad mewn ymateb i'r adborth a gafwyd. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu pa welliannau sydd eisoes wedi cael eu gwneud a'r gwelliannau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant a chymorth rheolaidd i gyflawni eu rolau yn effeithiol. Mae ffeiliau'r staff yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, gan ddangos bod gwiriadau recriwtio diogel ar waith. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu mynd at y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ar unrhyw adeg i drafod unrhyw broblemau neu eu hanghenion hyfforddiant. Caiff cofnodion o'r cyfarfodydd hyn eu cadw yn ffeiliau unigol y staff.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni'n effeithiol. Maent yn cadw tystiolaeth yn y ffeiliau o'r wybodaeth a gesglir gan y rhieni am anghenion penodol eu plant, ynghyd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Roedd y rhieni yn canmol y gofal a roddir i'w plant yn fawr. Dywedodd y rhieni wrthym fod ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff, a oedd yn rhannu gwybodaeth ar lafar ar ddiwedd pob sesiwn yn ogystal â rhannu ffotograffau a gwybodaeth ar dudalen benodedig ar y cyfryngau cymdeithasol neu mewn llythyrau.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 – Sicrhau y caiff canllawiau rheoli heintiau cyfredol eu dilyn wrth newid cewynnau er mwyn lleihau'r risg o groeshalogi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/02/2023